**Disgyblion sydd â Nam ar y Clyw mewn Ysgolion Prif Ffrwd**

**Mae dau brif fath o nam ar y clyw:**

- Byddardod dargludol lle nad yw sain yn pasio trwy naill ai'r glust allanol neu'r glust fewnol. Mae byddardod dargludol fel arfer yn fân neu'n gymedrol a gall fod dros dro neu fynd a dod.
- Byddardod synnwyrnerfol, lle y mae achos y byddardod wedi'i leoli yn y cochlea neu'r nerf clywedol. Mae byddardod synnwyrnerfol yn barhaol a gall amrywio'n fawr yn ei ddifrifoldeb.

**Mae nam ar y clyw yn amrywio'n fawr o ran natur a graddfa a gall effeithio:**

- Y gallu i glywed sain amledd uchel yn unig neu gall effeithio ar y gallu i glywed ar draws yr ystod amledd.
- Y ddwy glust (colli clyw dwyochrog) neu yn un glust yn unig (colli clyw unochrog.)

**A gall fod yn: -**

- Barhaol neu fynd a dod
- Yn fân, cymedrol, difrifol neu'n ddwys.
- Cynhenid neu ddatblygu ar unrhyw adeg wedi genedigaeth.

**Safle Dysgu**

- Sicrhewch fod y plentyn yn gymharol agos at flaen y dosbarth neu'n agos at yr athro, mewn unrhyw sefyllfa lafar.
- Sicrhewch fod golau ar eich wyneb.
- Ceisiwch beidio ysgrifennu ar y bwrdd a siarad yr un pryd.
- Sicrhewch y gall y plentyn weld eich wyneb yn glir – gall siarad â'ch wyneb wedi ei orchuddio â'ch llaw neu lyfr achosi problem.
- Cofiwch gynnau'r golau ar ddiwrnod tywyll.
- Edrychwch yng nghyfeiriad y plentyn pan fyddwch yn siarad.
- Ceisiwch fod yn agos i'r plentyn, yn ddelfrydol ar yr un lefel llygad.
- Tynnwch sylw'r plentyn cyn i chi ddechrau siarad.

**Acwsteg yr Ystafell Ddosbarth a Rheoli**

- Ceisiwch ddarparu amgylchedd gwrando da drwy leihau'r sain gefndirol.
- Mae deunyddiau sydd yn amsugno synnau fel carpedi a llenni yn fuddiol er mwyn lleihau arwynebau sydd yn adlewyrchu sain.
- Mae gosod traed rwber ar seddi yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r lefelau sain.
- Ceisiwch sicrhau fod y plentyn sydd â nam ar ei glyw yn eistedd mewn ardal dawel o'r dosbarth.
- Byddwch yn ymwybodol o synnau drwy ffenestri agored.
- Ceisiwch beidio rhoi'r plentyn i eistedd gerllaw coridor swnllyd.
- Ceisiwch osgoi drws sydd yn agored i neuadd ganolog os yn bosibl.
- Newidiwch oleuadau fflworoleuol pan fyddant yn dechrau cadw sŵn.

**Cynllunio Gwersi**

- Gall ysgrifennu geiriau allweddol ar y bwrdd fod yn ddefnyddiol.
- Gall arddweud neu gofnodi nodiadau fod yn anodd os bydd angen i'r plentyn ddarllen gwefusau.
- Mae darpariaeth ar bapur yn cynnwys crynodeb o'r pwnc dan sylw yn werthfawr tu hwnt.
- Gall cyfarwyddiadau brys ar ddiwedd y wers gael eu camddeall. Sicrhewch fod tasgau gwaith cartref wedi cael eu hysgrifennu'n glir.

**Defnydd o Iaith**

- Byddwch yn ymwybodol y gall newid sydyn o un pwnc neu destun i'r llall fod yn ddryslyd.
- Dechreuwch â phwnc y mae'r plentyn yn gyfarwydd ag ef cyn i chi weithio tuag at bwnc newydd.
- Rhowch ddigon o gliwiau cyd-destunol.
- Sicrhewch fod y plentyn yn deall. Mae nodio neu ddweud 'ie' yn ffordd ddiogel o osgoi cwestiynau pellach.
- Gall brawddegau byrrach fod yn haws i'w deall na geiriau sengl.

**Dysgu'r Dosbarth Cyfan**

- Ailadroddwch neu crynhowch gwestiynau sydd yn cael eu codi gan blant eraill. Mae clywed yr ateb heb glywed y cwestiwn yn ddryslyd.
- Dynodwch y siaradwr er mwyn galluogi'r plentyn i ganolbwyntio arno.
- Rheolwch gyflymdra'r drafodaeth. Gall cyfraniadau o wahanol gyfeiriadau arwain at gamddealltwriaeth.

**Ystyriaethau Eraill**

Gall cyfarwyddiadau sydd yn cael eu rhoi yn ystod y gwasanaeth boreol fod wedi eu camddeall. Dylai'r athro dosbarth wirio hyn yn ddiweddarach yn y dydd.

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

# DISGYBLION SYDD Â NAM AR EU CLYW MEWN YSGOLION PRIF FFRWD

**ADRAN DYSGU**

**Rhif Cyswllt**
Adran Dysgu
Canolfan Dinesig
Merthyr Tudful
CF47 8AN
Ffôn: - 01685 724642

**Gwefannau/Sefydliadau TGaCh defnyddiol**
www.rnid.org.uk
www.ndcs.org.uk
www.batod.org.uk
www.cafamily.org.uk
www.deafeducation.org.uk
www.sense.org.uk
www.bda.org.uk
www.signcommunity.org.uk
Merthyr Talking Hands-01685384198

**Cyhoeddiadau Defnyddiol**
Hyrwyddo Llythrennedd ar gyfer disgyblion sydd â nam ar eu clyw/Promoting literacy in deaf pupils
Hyrwyddo Rhifedd ar gyfer disgyblion sydd â nam ar eu clyw/Promoting numeracy in deaf pupils

**NDCS**
Ysgolion sydd yn addas ar gyfer disgyblion sydd â nam ar eu clyw/ Deaf Friendly Schools
Dysgu addas ar gyfer disgyblion sydd â nam ar eu clyw/Deaf Friendly Teaching
Cynhwysiant effeithiol disgyblion sydd â nam ar eu clyw mewn ysgolion prif ffrwd/Effective inclusion of deaf pupils into mainstream
Hyrwyddo mynediad i ddisgyblion sydd â nam ar eu clyw i'r Cwricwlwm Cenedlaethol/Promoting access to the National Curriculum for deaf pupils
Ymyriad cynnar, effeithiol ar gyfer plant sydd â nam ar eu clyw 0.5 a'u teuluoedd /Effective early intervention for deaf children O.5 and with families

**BATOD**
Canllawiau ar gyfer athrawon ysgolion prif ffrwd sydd â disgyblion â nam ar eu clyw

Ymyriad cynnar, effeithiol ar gyfer plant sydd â nam ar eu clyw 0.5 a'u teuluoedd/Effective early intervention for deaf children O.5 and with families